# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

## COFNODION
## CYFARFOD BLYNYDDOL 2014

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 21 Mai |
| **AMSER** | 7.00pm |
| **LLEOLIAD** | Ysgol Rhostryfan |
| **AELODAU'N BRESENNOL** | Gwilym L.Williams (Cad), Michelle Williams, Nerys Evans, Aeron M.Jones, Neal Williams, Rhys Owen, Elin Evans, GwilymV.Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL** | Bethan Williams, clerc |

| | |
|---|---|
| 1. | **Croeso** |
| 2. | **Ymddiheuriadau**<br>Elwyn Jones, Jason Hunt |
| 3. | **Datgan Buddiant**<br>Rhys Owen – cynllunio |
| 4. | **Ethol Swyddogion**<br>Etholwyd Gwilym L.Williams yn Gadeirydd am y flwyddyn 2014-2015, a Neal Williams fel is-gadeirydd. |
| 5. | **Cadarnhau cofnodion**<br>Cytunwyd fod cofnodion mis Ebrill yn gywir.<br><br>**Materion yn codi.**<br>Gofynnodd EE am esboniad gan AMJ pam na chafwyd ymateb i'n llythyr oedd yn datgan siom yr aelodau ynghylch â gwaharddiad AMJ o'r Cyngor Sir. Eglurodd AMJ nad oedd yn teimlo fod angen iddo ymateb. Nododd EE fod yr aelodau yn siomedig nad oedd cynrychiolaeth i drigolion Llanwnda ar Gyngor Gwynedd yn ystod y cyfnod. Nododd AMJ ei fod wedi methu un cyfarfod cyngor llawn, ond ei fod yn parhau i weithio ar ran yr etholwyr, ond nad oedd yn cael ei dalu am y gwaith. Dymunai EE ddatgan anfodlonrwydd gyda'r sefyllfa, ac yn gobeithio na fydd yr un peth yn digwydd eto. |
| 6. | **Materion i'w trafod:**<br>a. GLW – sgwar Bryn Melyn- Penygroeslon – dwr. Clerc i holi Cyngor Gwynedd i weld be sy'n digwydd efo'r peipio presennol, a holi os fydd y gwaith hwn yn gwella'r sefyllfa.<br>b. Weiren bigog ger Glanrafon – angen atgoffa swyddog llwybrau<br>c. Penderfynwyd gael blodau ar gyfer Rhosgadfan gan fod y potyn yn wag ar hyn o bryd, a phlannu cennin pedr yn yr hydref yn Rhostryfan a Saron.<br>d. Adroddodd AMJ ei fod wedi cael cyfarfod i drafod cynlluniau ar gyfer chwarel Rhosgadfan. Caniatad ar y funud i gario 200 tunnell yr wythnos, a bwriad i ofyn am ganiatad i ymestyn i 400 tunnell yr wythnos. Mae 200 tunnell yn gyfystyr a 10 llwyth. Pe bai caniatad ar gyfer 400 tunnell, byddai'n golygu 20 llwyth yr wythnos, gyda'r loriau yn teithio i fyny drwy Rhostryfan ac i lawr drwy'r Groeslon. Mae panel wedi sefydalu rhwng y perchennog, Mr.Smith a Chwarel Penrhyn, Dilwyn Lloyd ac AMJ i sortio unrhyw |

| | | |
|---|---|---|
| | broblemau yn y dyfodol. Holwyd sut mae Cyngor Gwynedd yn mynd i blismona hyn. Clerc i ofyn wrth adran gynllunio ac adran priffyrdd. Iechyd yr Amgylchedd ynglyn a swn y loriau. AMJ i ofyn i asiant Mr.Smith ddod i gwrdd a'r aelodau.<br>e. Bydd AMJ yn cael siafio ei ben i godi pres i Ward Alaw, yn arbennig i godi arian i helpu teuluoedd sydd yn diodde. Mae'r digwyddiad yn cael ei drefnu ar Fehefin 6ed yng Nghlwb Peldroed Caernarfon. Gofynnwyd am gyfraniadau, i'w hanfon trwy law y clerc. Gobeithir codi oddeutu £3,000.<br>f. Bysus yn Rhos Isaf. Adroddodd AMJ fod newidiadau i'r gwasanaeth yn mynd i ddigwydd. | |
| 7. | **Derbyn Adroddiadau** | |
| 8. | **Is-bwyllgorau** | |
| 9. | **Materion Ariannol**<br>Cyfri Cadw:<br>Cyfri Siec:<br><br>Taliadau:<br>Bethan Williams – cyflog Mai<br>Cyllid y Wlad<br>Wyn Williams<br>Cyfrifon 2013-2014 – gweler eitem 14 isod | <br><br><br><br><br>£418.67<br>98.40<br>529.50 |
| 10. | **Materion Cynllunio**<br>C14/0382/24/LL – Bodfan, Rhosgadfan – ymestyn modurdy presennol – dim sylwadau<br>C14/0338/24/LL – Cynefin,Lôn Llwyn Onn, Rhostryfan – estyniad dim sylwadau<br>C14/0388/24/LL – Gwelfor, Rhosgadfan – creu mannau parcio ychwanegol ac ail-ddylunio'r fynedfa – dim sylwadau<br>C14/0332/24/LL – Glasfryn, Rhosgadfan – estyniad a chreu mynedfa newydd – dim sylwadau<br>C24/0358/24/YA – Rhos Gawen, Saron – estyniad i'r sied bresennol – dim sylwadau<br><br>C14/0276/24/LL – Ceirniog Belan, Rhos Isaf – ty newydd – gwrthwynebu – cyfeirio yn ol at yr ebost<br><br>Cae ger Sain yn Llandwrog – adeiladau a charafannau yn y safle. Adroddodd AMJ y dylai'r perchnogion tir cael rhybudd i adael y tir. Clerc i gysylltu efo Elfyn Williams, Adran Gorfodaeth i nodi fod consyrn fod llwybr cyhoeddus yn croesi'r tir yma. | |
| 11. | **Gohebiaeth:**<br>a. Cyngor Gwynedd – amserlen casglu biniau<br>b. Cylchgronnau<br>c. Derbyniwyd gais FOI am unrhyw wybodaeth ynglyn a chais i gael maes carafannau yn Waen Bant, Rhostryfan. Clerc i ymateb.<br>d. Hysbysfyrddau – Wyn i osod yr hysbysfwrdd yn ol yn Dinas, ac i osod yr un yn Saron ar y tu allan i'r gysgodfan bysiau. | |

| | |
|---|---|
| 12. | **Materion mis nesa**<br>a. EE – gwrychoedd Ffrwd Cae Du<br>b. GVT – holi am yr arwydd LED yn Rhosgadfan<br>c. GVT – Bronallt – coed yn gor dyfu<br>d. GVT – hydrant yn gollwng yn Penffordd – ar y junction<br>e. GVT – speedbumps angen sylw, eu hochrau wedi gwisgo ar o'r herwydd yn malu teiars – priffyrdd<br>f. NW – parcio Penffridd<br>g. AMJ – cwynion am geir yn cael eu malu yn Dreflan, plant yn chwarae pel droed, a dringo ceir.<br>h. Llinellau melyn o flaen yr ysgol yn Rhostryfan<br>i. NE – cwyn am geir – rhwng sgwar Rhos a'r ysgol |
| 13. | Daeth y cyfarfod llawn i ben am 8.45pm |
| 14. | **Is-gyfarfod Pwyllgor Cyllid** – archwilwyd y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn 2013-2014 gan Nerys Evans, Aeron M.Jones a Michelle Williams. Nodwyd fod y cyfrifon yn gywir, ac y gellid eu cyflwyno i'r archwiliwr mewnol mewn da bryd. |